**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
**—**
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Cyng Andrew Morgan OBE
Arweinydd CLlLC

05 Mehefin 2025

Annwyl Andrew,

**Iechyd Pridd mewn Amaethyddiaeth**

Mae pridd iach yn hynod bwysig i gefnogi ein systemau amaethyddol, at ddibenion cynhyrchu bwyd/ffibr, ansawdd dŵr, atal llifogydd, bioamrywiaeth a storio carbon. Er mwyn cefnogi iechyd pridd Cymru yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i iechyd pridd mewn amaethyddiaeth.

Un o'r meysydd y mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig ynddo yw dosbarthiad priddoedd ar gyfer defnydd tir. Fel y gwyddoch, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi mai tir amaethyddol o radd 1, 2 a 3a yn y Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) yw'r tir amaethyddol "gorau a mwyaf amlbwrpas, a dylid ei warchod fel adnodd y mae terfyn iddo ar gyfer y dyfodol". Mae'n nodi y dylid "rhoi cryn bwys ar ddiogelu tir o'r fath rhag ei ddatblygu, oherwydd ei bwysigrwydd arbennig" ac na ddylid datblygu tir o raddau 1, 2 a 3a, "onid oes angen sy'n drech na dim arall am y datblygiad".

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod tensiwn rhwng yr angen i ddatblygu tir, yn enwedig ar gyfer tai, a'r angen i warchod ein tiroedd fferm mwyaf gwerthfawr a mwyaf cynhyrchiol o bosibl. Fel rhan o'n hymchwiliad, byddai'r Pwyllgor yn awyddus iawn i glywed barn awdurdodau lleol, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, am y tensiwn hwnnw a'r hyn y mae awdurdodau lleol yn ei wneud, yn enwedig fel rhan o'u gwaith ar Gynlluniau Datblygu Lleol, i ddiogelu'r pridd mwyaf gwerthfawr ac i gadw ei ddefnydd at ddiben tyfu cnydau.

Diolch ymlaen llaw am eich cymorth gyda'r ymchwiliad pwysig hwn; gofynnir yn garedig i chi ymateb erbyn 22 Mehefin.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg